



# Adroddiad PARRC Ponterwyd

## Awst 2016



Adroddiad wedi'i paratoi gan CAVO ☎ 01570 423 232 💻 [gen@cavo.org.uk](mailto:gen@cavo.org.uk)



**Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion**  
**Ceredigion Association of Voluntary Organisations**

# Cynnwys

Cyflwyniad a Chefndir .....	2
Methodoleg .....	2
Disgrifiad o'r Ardal.....	3
Canlyniadau'r Ymgynghoriad .....	4
Pwy Fynychodd?.....	4
Beth Ddywedon Nhw?.....	5
Prif Ganfyddiadau .....	6
Camau i'w cymryd yn y Dyfodol .....	6
Atodiadau.....	7
Templed Cynllun Gweithredu .....	7
Arolwg Cerdyn Post .....	8
Ystadegau Cymunedol Allweddol.....	9
Sgyrsiau Cymunedol .....	10

# Cyflwyniad a Chefndir

Mae hwn yn un o gyfres o adroddiadau a ariannwyd trwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig sy'n cofnodi canlyniadau ymgynghoriadau a gynhaliwyd er mwyn nodi pwysigrwydd ardaloedd hamdden i gymunedau ar draws Ceredigion, ynghyd ag unrhyw welliannau y mae angen eu gwneud. Mae'r adroddiad yn gorffen trwy nodi nifer o ganfyddiadau allweddol a champau gweithredu posibl er mwyn datblygu'r syniadau a awgrymwyd gan gyfranogwyr yn yr ymgynghoriad. Gyda chymorth y gymuned, y Cyngor Cymuned, Cyngor Sir Ceredigion, CAVO a Chynnal y Cardi, defnyddir cynnwys yr adroddiad hwn er mwyn cefnogi ceisiadau ariannol i wireddu gweledigaeth y cymunedau ar gyfer eu hardal hamdden.

## Methodoleg

Cynhaliwyd digwyddiad chwarae cymunedol ar brynhawn dydd Sadwrn 20 Awst yn y lle chwarae yn y pentref. Cynigiwyd sesiwn chwarae a ffest mochyn a lluniaeth am ddim, a chynhaliwyd y digwyddiad ar ffurf parti i'r Pentref. Er bod y tywydd yn wael iawn ar y diwrnod, roedd nifer o blant wedi mynychu gyda'u rhieni, eu perthnasau a phreswylwyr eraill ac arweinwyr cymunedol lleol.

Roedd y digwyddiad ymgynghori a'r deunyddiau'n addas iawn i bobl ifanc, er mwyn gallu ymgysylltu â'r rhanddeiliaid allweddol mewn ffordd effeithiol. Roedd yr ymgynghoriadau'n weledol, yn rhyngweithiol ac yn ddwyieithog, gan ddefnyddio:

- Delweddu 2D – gyda ffotograffau a lluniau o'r cynlluniau
- Sesiynau trafod byr, strwythuredig
- Holiaduron wedi'u seilio ar ddelweddau

## Hyrwyddo/Marchnata

Hysbysebwyd y digwyddiad ar boster, wrth i bobl sôn wrth ei gilydd amdano a thrwy gyfrwng cyfryngau cymdeithasol. Dosbarthodd cynrychiolwyr lleol gopïau caled o'r gwahoddiad a dosbarthwyd fersiwn electronig er mwyn annog cyfranogiad y gymuned.

## Cwestiynau'r Arolwg

Gwnaethpwyd penderfyniad bwriadol i gadw cynnwys yr arolwg ymgynghori yn fyr ac yn syml, gan ganolbwyntio ar dri maes allweddol, sef yr hyn y mae cyfranogwyr yn ei wneud er mwyn parhau i fod yn egnïol yn eu cymuned, pam bod y lleoedd a'r manau hyn yn bwysig a beth fyddai pobl yn ei newid yn eu cymuned er mwyn annog pobl i barhau i fod yn egnïol. Yn ogystal, gofynnem i gyfranogwyr roi sgôr o 1 i 10 i lefel eu gweithgarwch. Datblygwyd ail arolwg fel canllaw er mwyn cynnal sgysiau manylach gyda rhanddeiliaid cymunedol allweddol.

## Disgrifiad o'r Ardal

Mae Ponterwyd yn bentref bach ym Mynyddoedd Cambria, 12 milltir i'r dwyrain o Aberystwyth ar ffordd yr A44. Mae Pont Erwyd yn cludo'r A44 ar draws afon Rheidol yn y pentref; mae'r hen bont sy'n croesi'r Rheidol yn bont cerrig un bwa ac fe'i gelwir yr Hen Bont.

Mae atyniadau i dwristiaid yn amgylchynu'r pentref. Enwyd Gwesty George Borrow ar ôl yr awdur a deithiodd i Gymru ac a arhosodd yma ym 1852. Mae'r pentref ar waelod cadwyn o fynyddoedd Pumlumon – y pum copa uchaf ym Mynyddoedd Cambria ac mae Bwlch Nant yr Arian filltir i fyny'r ffordd. Mae Nant yn Arian yn cynnig cyfleusterau cerdded a beicio gwych ac mae nifer o bobl yn dod i weld y cudyllod coch yn cael eu bwydo bob dydd.




Mae neuadd y pentref yn yr ysgol ac mae'n cynnig dosbarthiadau a gweithgareddau gan gynnwys Clwb Celf, Clwb Garddio a Chlwb Ieuencid. Ni cheir fawr iawn o gyfleusterau ym Mhonterwyd ac eithrio Gwesty George Borrow a Gorsaf Betrol a siop. Er gwaethaf yr atyniadau i ymwelwyr, mae preswylwyr yn teimlo na allant fforddio trafndiaeth gyhoeddus er mwyn manteisio ar gyfleusterau yn Aberystwyth. Mae lle chwarae a lle chwarae pêl-droed wrth ymyl ystad o Dai Cymdeithasol.



# Canlyniadau'r Ymgynghoriad

## Pwy Fynychodd?

Roedd 26 o unigolion wedi mynychu'r sesiwn ymgynghori ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn byw ym Mhonterwyd neu yng nghyffiniau Ponterwyd. Cynhaliwyd y sesiwn ymgynghori yn ystod sesiwn chwarae, ac fe'i hysbysebwyd fel parti i'r pentref. Roedd 62% o'r rhai a fynychodd dan 15 oed. Roedd 17 o blith y 26 yn fenywod. Roedd 65% ohonynt yn siaradwyr Cymraeg a nododd 96% nad oeddent yn ystyried bod ganddynt anabledd.



## Beth Ddywedon Nhw?

Pan ofynnwyd am yr hyn y mae pobl yn ei wneud ac yn ei ddefnyddio ym Mhonterwyd er mwyn parhau i fod yn egniol, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn bresennol yn teimlo mai'r lle chwarae a'r cae chwarae yw'r unig ddewisiadau sydd ar gael iddynt.

Soniodd rhai bod plant a phobl ifanc yn aml yn chwarae ar y ffordd yn yr ystad dai, a bod hyn yn gallu bod yn beryglus. Roedd pobl yn teimlo bod y lle'n bwysig i'r gymuned o hyd gan ei fod am ddim, yn fan i bobl gyfarfod, yn lle niwtral i bawb yn y gymuned ac mae'n rhoi'r dewis i bobl gymryd rhan os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Roedd yr argymhellion ynghylch gwneud newidiadau yn canolbwyntio ar yr angen i uwchraddio'r offer yn y lle chwarae a newid y lle, fel bod modd ei ddefnyddio er mwyn cyflwyno gweithgareddau i bobl o bob oed yn y gymuned, gan annog preswylwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'i gilydd.

Mynegwyd pryderon am nifer gynyddol yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a fandaliaeth yn y gymuned, a theimlir y gallai cynyddu'r gweithgareddau i blant, pobl ifanc a'r gymuned ehangach helpu i greu ymdeimlad o falchder yn y gymuned.

### **3 peth mwyaf boblgaeth mae pobl yn eu gwneud neu yn eu defnyddio yn Ponterwyd i'w gadw'n actif**

**1 = Maes Chwarae**

**2= Sesiynau Chwarae RAY Ceredigion**

**3= Ardal Pêl-droed**

### **Pam fod y llefydd hyn yn bwysig i drigolion Ponterwyd?**



### **Pethau i'w newid yn Ponterwyd i helpu pobl i gadw'n heini**

**1. Gwella'r Maes Chwarae**

**2. Rhwybeth ar gyfer plant hyn – wifren sip neu parc sglefrio**

**3. Cysgodfa ar gyfer ardal o'r maes chwarae**

## Prif Ganfyddiadau

O'r trafodaethau, mae'n ymddangos nad yw'r gymuned leol yn cefnogi'r lle chwarae ym Mhonterwyd yn dda iawn ar hyn o bryd, a nododd nifer o rieni nad ydynt yn caniatáu i'w plant chwarae heb iddynt fod dan oruchwyliaeth (ceir rhywfaint o ymddygiad gwrthgymdeithasol, y mae'r PCSO/heddlu yn rhoi sylw iddo). Fodd bynnag, mynegodd nifer o'r rhai a oedd yn bresennol eu bod yn dymuno gweld y lle'n cael ei ddefnyddio mewn ffordd gadarnhaol er mwyn meithrin perthnasoedd yn y gymuned ac er mwyn goresgyn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Amlygwyd y prif welliannau canlynol yn ystod trafodaethau gyda'r rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiad;

- Mae angen uwchraddio'r lle chwarae a disodli sawl darn o offer chwarae, gan gynnwys y boncyff rholio a'r lithren fach;
- Awgrymwyd y dylid cael offer newydd, gan gynnwys weiren wib;
- Defnyddir y lloches ond mae angen ei ddisodli;
- Mae gwir angen gwneud y ddaear yn wastad yn y safle pêl-droed

Roedd nifer o'r preswylwyr y buom yn ymgysylltu â nhw yn pryderu y byddai angen i unrhyw offer newydd fod yn gydnerth ac yn gryf oherwydd achosion lleol o fandaliaeth, a defnyddiwyd y safle bws fel enghraifft.

## Camau i'w cymryd yn y Dyfodol

- Cynorthwyo cymuned Ponterwyd i chwilio am gyllid er mwyn cyflawni rhai o'r awgrymiadau a wnaethpwyd yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys yr Ysgol a'r Cyngor Cymuned fel partneriaid allweddol.
- Nodi'r costau o uwchraddio a disodli offer chwarae a gwaith i wneud y ddaear yn wastad.
- Mae angen i unrhyw ddatblygiad a newidiadau yn y dyfodol gynnwys preswylwyr lleol a phobl ifanc, er mwyn ceisio ysgogi balchder a pharch tuag at y lle ac unrhyw offer a ddarparir.

# Atodiadau

## Templed Cynllun Gweithredu

### Offeryn Cynllunio Sylfaenol

Amcan:						
Canlyniadau Bwriadedig:						
Beth mae angen ei wneud?	Sut ydych chi'n mynd i wneud hyn?	Erbyn pryd?	Pwy fydd yn gyfrifol?	Beth fydd ei angen arnom?	Beth mae angen ei wneud?	Sut fydden ni'n gwybod os rydym yn llwyddianus??
<b>Tasgau</b>	<b>Strategaeth</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Strwythur/Partneriaid</b>	<b>Adnoddau</b>	<b>Monitro /Gwerthuso</b>	



## Arolwg Cerdyn Post

### PARRC – Parti Pentref

Lleoliad: \_\_\_\_\_

Pa 3 pheth mae pobl yn eu gwneud ac yn eu defnyddio i aros yn actif yn eich cymuned?

1. ....
2. ....
3. ....

Pam fod y llefydd hyn yn bwysig?

.....  
.....  
.....

Pa 3 pheth sydd angen newid yn y gymuned i helpi pobl aros yn actif?

1. ....
2. ....
3. ....

Ar raddfa o 1 i 10 pa mor actif wyt ti?



1

2

3

4

5

6

7

8

9

10



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council



Caru-Love  
**Ceredigion**

## Ystadegau Cymunedol Allweddol

Lleolir Ponterwyd yn Ardal Gynnyrch Ehangach Is (LSOA) Melindwr. Mae LSOA yn cynnwys poblogaeth o tua 1,600 o bobl at ddibenion cymharu hawdd. Dosbarthir Melindwr fel **Pentref Gwledig a gwasgaredig mewn lleoliad prin ei boblogaeth**.

### Poblogaeth

Yn 2015, amcangyfrifwyd mai maint poblogaeth preswylwyr Melindwr oedd 1,973. Dwysedd y boblogaeth oedd 10 o bobl fesul cilomedr<sup>2</sup>, o'i gymharu â 42 o bobl fesul cilomedr<sup>2</sup> yng Ngheredigion ac 149 o bobl fesul cilomedr<sup>2</sup> yng Nghymru. Dros y bum mlynedd ddiwethaf, mae poblogaeth Melindwr wedi gostwng 2% (40 o bobl). (*Gwefan InfoBase Cymru*)



Poblogaeth fesul band oedran						
Pob Oed	0-15 oed		16-30 oed		People aged 31+	
1,973	341	17%	256	13%	1,376	70%

Ganwyd 55% o'r bobl sy'n byw ym Melindwr yng Nghymru, ganwyd 42% ohonynt yn y DU, y tu allan i Gymru, a ganwyd 3% ohonynt y tu allan i'r DU. Adroddodd 49% o bobl 3 oed a throsodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg (*cyfrifiad 2011*).

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2014

MALIC yw mesur swyddogol amddifadedd perthynol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Fe'i cynlluniwyd i nodi'r ardaloedd bach hynny lle y gwelir y crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd.

Yn 2014, roedd Melindwr yn safle 1,001 o blith 1,909 yng Nghymru ar MALIC (lle y mae 1 yn cyfateb â'r un fwyaf ddifreintiedig). Mae ymhlith y 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru. Mae ymhlith y rhai lleiaf difreintiedig o ran Diogelwch Cymunedol ac Iechyd, ond mae ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig o ran Mynediad i Wasanaethau a Thai. (*Uned Data Llywodraeth Lleol – Cymru*)

Mae 16% o'r plant ym Melindwr yn byw mewn teuluoedd incwm isel (teuluoedd sy'n cael Credydau Treth Plant ac y mae eu hincwm a adroddir yn llai na 60 y cant o'r incwm canolrifol neu y maent yn cael Cymhorthdal Incwm neu JSA yn Seiliedig ar Incwm, wedi'i rannu â chyfanswm y plant yn yr ardal) (*Gwefan InfoBase Cymru*).

## Sgyrsiau Cymunedol

- Gwelir llai o ddi-ddordeb yn y parc
- Bydd oedolion a phlant yn dod ynghyd i gael barbiciw yn y parc
- Yn aml, bydd poteli wedi cael eu chwalu ar y glaswellt
- Mae baw cŵn yn broblem
- Mae ceir wedi cael eu crafu
- Gall rhai plant fod yn stwrllud a cheir fandaliaeth
- Mae'n anodd cadw pawb yn hapus
- Mae angen i fwy ddi-gwydd yn y parc fel bod plant yn ddiogel i ffwrdd o'r ffordd a cheir sy'n gyrru'n gyflym
- Mae angen i'r gymuned ddysgu parchu offer (plant hŷn)
- Mae nifer fawr o'r plant yn hoffi'r pêl-droed yma – byddant yn dod yma drwy'r amser.
- Defnyddir y safle bws (fel cysgodfa) ond mae wedi cael ei fandaleiddio.
- Nid yw'r dyn cynnal a chadw yn casglu'r glaswellt, nac yn ei chwythu oddi ar y wyneb rwber ar ôl gorffen. (Nodwyd hyn gan gynghorydd Cymuned).
- Beth bynnag a roddir yma, rhaid iddo fod yn gryf. Mae'r plant yma yn wyllt. Ni fyddaf yn gadael fy mhiant yma ar eu pen eu hunain.
- Rydw i'n hoffi'r ddau drogyllch.
- Mae'r lloches yn dda, ond mae wedi pydru nawr. Byddai'n dda cael lloches newydd.
- Gallai'r boncyff rhoio, y caban a'r sleid fach fynd. Mae'r boncyff rhoio yn beryglus.
- Ni fyddaf yn defnyddio'r lle chwarae i ddweud y gwir – rydw i'n byw y tu allan i'r pentref. Pe byddwn yn cludo fy mhiant i lawr i'r lle chwarae hwn, byddai'n well i mi eu cludo i Nant yr Arian neu rywle.
- Mae metel yn well na phren – bydd pren yn llosgi.
- Mae goliau 5 bob ochr yn llai – mae angen goliau yr un maint ag y mae gennym nawr ond ychydig yn llydanach. Gallen eu gwneud ein hunain, ond byddai angen eu gosod mewn concriid.
- Byddai ffens talach ar gyfer y lle pêl-droed yn dda – mae'r bêl wastad yn mynd dros y ffens. Mae tir y cyngor yr ochr draw yn gorslyd iawn.
- Ie – rydw i'n hoffi'r weiren wib. Mae'n wir bod y plant yma yn wyllt – mae angen un metel arnom.
- A oes modd i ni wneud y maes pêl-droed yn wastad?
- Dim ond pan fydd RAY Ceredigion yma y byddwn ni'n dod yma.
- Roedd Norman wedi annog y syniad o gael weiren wib yn fawr ac rydw i'n teimlo'n frwdfrydig amdani – syniad da iawn.
- Mae fy rhai bach i yn dod yma drwy'r amser
- Fy hoff ran yw'r maes pêl-droed ond mae angen ei wneud yn wastad, mae'n rhy bantiog.
- Byddai rhywle i sgrialu a beicio yn dda – a fyddai modd i ni roi ychydig darmac ar y tir y tu ôl i'r gôl pêl-droed?
- Dylid cael gwared ar y boncyff, y trogyllch bach, y lloches a'r sleid fach a chael caban enfawr yn eu lle, sy'n cynnwys seddau a goleuadau ar gyfer y nos.
- A oes unrhyw obaith cael maes sgrialu neu ambell i ramp? Mae'r cyngor yn berchen ar y darn o dir o'r safle trin carthffosiaeth i lawr i'r afon.

- Hoffwn gael cadeiriau olwyn yn y lle chwarae bob amser fel bod modd i ni wthio ein gilydd o gwmpas.
- Maes pêl-droed – dylid gwneud y tir yn wastad – ceir gwahaddod hefyd.
- Nid oes llawer yma i blant hŷn felly byddant yn diflasu ac yn torri pethau – nid yw'r plant hŷn yn defnyddio'r boncyff troi rhyw lawer